# REVIEW OF THE YEAR

# GOLWG AR Y FLWYDDYN

# 2017

RSAW
Architecture.com/wales

NEW PRESIDENT
THE YEAR IN PROFILE
HIGHLIGHTS
FACTS AND FIGURES
THE YEAR AHEAD

LLYWYDD NEWYDD
CRYNODEB O'R FLWYDDYN
UCHAFBWYNTIAU
FFEITHIAU A FFIGURAU
Y FLWYDDYN O'N BLAEN

**A new President for RSAW**

2017 saw two RSAW Presidents in office – Carolyn Merrifield was elected in the spring to succeed Robert Firth, who completed his two-year term in September. Carolyn will serve from 2017 to 2019, with Robert in the role of Immediate Past President; the next President (2019 – 2021) will be elected in spring 2018 by a ballot of all members in Wales.

**Llywydd newydd RSAW**

Bu gan RSAW ddau Lywydd yn 2017 – etholwyd Carolyn Merrifield yn y gwanwyn i olynu Robert Firth gan fod ei dymor o ddwy flynedd yn dod i ben ym mis Medi. Bydd Carolyn yn Llywydd o 2017 i 2019, gyda Robert yn Gyn-Lywydd Diwethaf; etholir y Llywydd nesaf (2019 – 2021) yng ngwanwyn 2018 trwy bleidlais gan yr holl aelodau yng Nghymru.

# Introduction/Cyflwyniad

## Robert Firth

**I have just completed** my second spell as President of the Royal Society of Architects in Wales and it has been an honour to be voted in to do this important role again.

Over the last two years I have travelled all over Wales and back and forth to London, Belfast and Dublin, spreading the message on the quality of Welsh architectural design to a variety of audiences - developers, councils, government departments, the construction industry and the public. I think the message is getting through but the effort needs to be unceasing.

Fair procurement is, in my view, still the biggest issue by far, but the architect's role in the construction industry, BIM, political lobbying, sustainable design, fee levels and the continuing rise in design and build contracts will all play their part in shaping the profession in the years to come.

The Inquiry into the terrible events at Grenfell Tower will be very important for the architectural profession's role in an increasingly disjointed approach to construction and building regulations across the UK. The RIBA has made some very useful and pertinent statements on how this should be improved - I hope the 'powers that be' listen. This should never happen again.

My last plea. Please work together. Architects practices and practitioners in Wales are frequently strangers to each other. We need a strong voice AND we need it to be heard in the right place - at the heart of the construction industry influencing government, public authorities and clients.

I wish Carolyn Merrifield many congratulations and the very best of luck for the next two years in her role as RSAW President. She has my full support.

**Rwyf newydd gwblhau** fy ail gyfnod fel Llywydd Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru a bu'n anrhydedd cael fy ethol i wneud y swydd bwysig hon eilwaith.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rwyf wedi teithio ledled Cymru ac yn ôl a blaen i Lundain, Belfast a Dulyn, gan roi'r gair ar led am safon pensaernïaeth yng Nghymru i wahanol gynulleidfaoedd – datblygwyr, cynghorau, adrannau'r llywodraeth, y diwydiant adeiladu a'r cyhoedd. Rwy'n meddwl bod pobl yn dechrau deall ond mae'n rhaid dal ati.

Yn fy marn i, prosesau caffael teg yw'r mater pwysicaf o bell o hyd, ond bydd rôl y pensaer yn y diwydiant adeiladu, BIM, lobïo gwleidyddol, dylunio cynaliadwy, lefelau ffïoedd a'r cynnydd mewn contractau dylunio ac adeiladu oll yn chwarae eu rhan yn llywio'r proffesiwn yn y blynyddoedd nesaf.

Bydd yr ymchwiliad i drychineb Tŵr Grenfell yn chwarae rhan bwysig iawn yn rôl y proffesiwn pensaernïol wrth fynd i'r afael â'r ymateb di-drefn i reoliadau adeiladu ledled y Deyrnas Unedig. Mae RIBA wedi gwneud nifer o ddatganiadau buddiol a pherthnasol ynghylch gwella hyn - gobeithio y bydd y rhai sydd mewn grym yn gwrando. Ni ddylai hyn ddigwydd byth eto.

Fy apêl olaf. Plîs, cydweithiwch. Yn aml, mae practisiau ac ymarferwyr pensaernïol yng Nghymru yn ddieithr i'w gilydd. Mae arnom angen llais cryf AC mae angen iddo gael ei glywed yn y man iawn - yng nghalon y diwydiant adeiladu lle gall ddylanwadu ar y llywodraeth, awdurdodau cyhoeddus a chleientiaid.

Hoffwn longyfarch Carolyn Merrifield yn gynnes iawn a dymuno'r gorau iddi fel Llywydd RSAW am y ddwy flynedd nesaf. Mae ganddi fy nghefnogaeth lwyr.






# Introduction/Cyflwyniad
## Carolyn Merrifield

**As I start** my two year term of office as RSAW President, I feel both slightly daunted and hugely exhilarated by the challenges ahead. The RSAW has a busy programme of events planned, including an architecture exhibition in the Senedd, the Annual Conference, Spring School, Festival and Awards, in addition to the commitment to represent RSAW at various RIBA head office meetings and activities.

I'd like to give huge thanks to Robert for his impressive efforts over the past two years and I'm keen to carry on his hard work on procurement. To this we must add the need to promote equality within construction and our profession and to encourage a wider range of talent to feel that the RIBA is relevant to them. As Robert states in his message, we are stronger when we all pull together to influence the industry.

I am looking forward to the prospect of meeting as many members as possible and to working with Mary Wrenn and her team who I am sure will guide me on the way.

**Wrth i mi gychwyn** fy nhymor o ddwy flynedd yn Llywydd RSAW, rwy ychydig bach yn nerfus ac yn llawn cyffro wrth feddwl am yr heriau sydd o'm blaen. Mae gan RSAW raglen lawn o ddigwyddiadau ar y gweill, yn cynnwys arddangosfa bensaernïol yn y Senedd, y Gynhadledd Flynyddol, yr Ysgol Wanwyn, Gŵyl a Gwobrau, yn ogystal â'r ymrwymiad i gynrychioli RSAW mewn gwahanol weithgareddau, a chyfarfodydd ym mhrif swyddfa RIBA.

Hoffwn ddiolch o waelod calon i Robert am ei ymdrechion arbennig dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac rwy'n awyddus i barhau â'r gwaith caled y mae wedi'i wneud ym maes caffael. Yn ogystal, mae'n rhaid i ni hybu cydraddoldeb yn y diwydiant adeiladu a'n proffesiwn ni ac annog pobl ddawnus o feysydd ehangach i deimlo bod RIBA yn berthnasol iddyn nhw. Fel y dywed Robert yn ei neges, rydym yn gryfach pan fydd pawb ohonom yn cyd-dynnu i ddylanwadu ar y diwydiant.

Rwy'n edrych ymlaen at gyfarfod â chynifer o aelodau ag y bo modd ac at gydweithio â Mary Wrenn a'i thîm a fydd, rwy'n sicr, yn fy arwain ar hyd y ffordd.

## Background

Tracing its origins back to the late 19th century, the Royal Society of Architects in Wales (RSAW) was granted the Royal pre-fix in 1994 and represents and supports around 700 Chartered Members of our parent body, the Royal Institute of British Architects (RIBA), who live and work in Wales.

A team of four staff (two full-time, two part-time) employed by the RIBA works on members' behalf from a base in Cardiff's Creative Quarter and a network of volunteer-led Branches operate in North, South, Mid and West Wales. RSAW strives to be an authoritative information source able to represent the voice of the architectural profession in Wales, bringing influence to bear on Welsh Government and related agencies.

We connect with leading figures in the political and creative arenas through our Honorary Member programme and we promote the value of good design through awards schemes, exhibitions, festivals and conferences, regularly working in partnership with other professional bodies and Welsh national organisations.

## What RSAW does

### Activities engaging members in the civic and political life of Wales

We work with partners to deliver high-profile, public-facing events such as the National Eisteddfod with Design Commission for Wales and an exhibition celebrating Welsh architecture in the Senedd building.

### Welsh Government policy

We respond to all Welsh Government consultation documents relating to the built environment; we engage with Constructing Excellence Wales, Design Commission for Wales, the National Procurement Service, CITB Professional Services Group, cross-party meetings etc and keep members informed through regular updates.

### Influencing - bringing the value of design to initiatives and debates

The Metro Urban Density (MUD) initiative, exploring the impact of proposed metro stations on neighbourhoods pioneered by Design Circle (South Wales Branch) continues to influence and inform good practice; while a talk by the winning designers of a glamping design competition was a popular public event in the Wales Festival of Architecture 2017.

### Maintenance of professional standards

Through the Wales Future Practice programme and seminars linking with new legislation, members are able to keep knowledge and skills up-to-date.

### Promotion of good design through members' work

With exhibitions of each year's Award-winning buildings and local displays showing the value architects bring to the community, we promote the achievements of architects in Wales, from small scale to major projects.

### Education

We work with Cardiff University (Welsh School of Architecture) and UWTSD (the new Swansea School of Architecture) to co-ordinate a 'practice experience programme' with local practitioners for second-year students.

### Role as a 'Learned Society'

We co-publish with the University of Wales Press The Architecture of Wales series, while Touchstone Review provides an annual update on new and projected developments.

## Y Cefndir

### Mae gwreiddiau Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru (RSAW) yn dyddio yn ôl i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ond yn 1994 yr ychwanegwyd y gair “Brenhinol” at y teitl. Mae’n cynrychioli ac yn cefnogi tua 700 o Aelodau Siartredig o’n rhiant gorff, Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) sy’n byw ac yn gweithio yng Nghymru.

Mae tîm o bedwar o staff (dau llawn amser a dau rhan amser), a gyflogir gan RIBA, yn gweithio ar ran yr aelodau o swyddfa yn Ardal Greadigol Caerdydd ac mae gennym rwydwaith o ganghennau a arweinir gan wirfoddolwyr yng Ngogledd, De, Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae RSAW yn ymdrechu i fod yn ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth a all gynrychioli llais y proffesiwn pensaernïol yng Nghymru, gan ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru ac asiantaethau cysylltiedig.

Rydym yn ymwneud â ffigurau blaenllaw yn y meysydd gwleidyddol a chreadigol trwy ein rhaglen Aelodau er Anrhydedd ac rydym yn hybu gwerth dylunio da trwy gynlluniau gwobrau, arddangosfeydd, gwyliau a chynadleddau, gan gydweithio’n rheolaidd â chyrff proffesiynol eraill a sefydliadau cenedlaethol yng Nghymru.

## Beth y mae RSAW yn ei wneud

### Gweithgareddau sy’n cynnwys aelodau ym mywyd dinesig a gwleidyddol Cymru

Rydym yn cydweithio â phartneriaid i arddangos mewn digwyddiadau mawr cyhoeddus e.e. yr Eisteddfod Genedlaethol gyda Chomisiwn Dylunio Cymru, ac arddangosfa yn dathlu pensaernïaeth Cymru yn y Senedd.

### Polisi Llywodraeth Cymru

Rydym yn ymateb i holl ddogfennau ymgynghori Llywodraeth Cymru sy’n ymwneud â’r amgylchedd adeiledig; rydym yn ymwneud ag Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, Comisiwn Dylunio Cymru, y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, Grŵp Gwasanaethau Proffesiynol y CITB, cyfarfodydd trawsbleidiol ac ati ac rydym yn cysylltu’n rheolaidd â’n haelodau â’r newyddion diweddaraf.

### Dylanwadu - cynnwys gwerth dylunio mewn cynlluniau a thrafodaethau

Mae cynllun Design Circle (Cangen De Cymru), Metro Urban Density (MUD), yn ystyried effaith y gorsafoedd metro arfaethedig ar gymdogaethau ac mae’n dal i gyfrannu at arferion da; ac roedd sgwrs gan ddylunwyr buddugol cystadleuaeth ddylunio ym maes gwârsylla (glampio) yn ddigwyddiad poblogaidd yng Ngŵyl Bensaernïaeth Cymru 2017.

### Cynnal safonau proffesiynol

Trwy raglen Practisiau Dyfodol Cymru/Wales Future Practice a seminarau’n ymwneud â deddfwriaeth newydd, gall aelodau ddiweddaru eu gwybodaeth a’u sgiliau.

### Hybu dylunio da trwy waith yr aelodau

Bob blwyddyn, cynhelir arddangosfeydd o adeiladau sydd wedi ennill gwobrau ac arddangosiadau lleol sy’n dangos gwerth penseiri i’r gymuned ac felly rydym yn tynnu sylw at yr hyn y mae penseiri’n ei gyflawni yng Nghymru, yn brosiectau bach a mawr.

### Addysg

Rydym yn cydweithio â Phrifysgol Caerdydd (Ysgol Bensaernïaeth Cymru) a PCDDS (Ysgol Bensaernïaeth Abertawe) i gydlynu rhaglen ‘profiad mewn practis’ ar gyfer myfyrwyr ail flwyddyn mewn practisiau lleol.

### Rôl fel ‘Cymdeithas Ddysgedig’

Rydym ni a Gwasg Prifysgol Cymru yn cydgyhoeddi cyfres The Architecture of Wales ac mae Touchstone Review yn cyhoeddi newyddion am brosiectau newydd ac arfaethedig bob blwyddyn.

# 2017: the year in profile crynodeb o'r flwyddyn

The following pages record the initiatives and events undertaken across Wales by RSAW members, branches and staff in 2017.

Mae'r tudalennau a ganlyn yn cofnodi'r cynlluniau a'r digwyddiadau a gynhaliwyd ledled Cymru gan aelodau, canghennau a staff RSAW yn 2017.



# January February March

— Practice experience scheme for second-year students at the Welsh School of Architecture, Cardiff, involved 19 practices and 65 students.

— Four buildings were shortlisted for the 2017 Welsh Architecture Awards:

- One Central Square Cardiff, Rio Architects
- Silver House, Hyde + Hyde Architects
- Rhyl High School, AHR Architects
- The Chickenshed, Hall & Bednarczyk Architects

— RSAW was represented at a UK Creative Industries Federation round-table discussion in Cardiff.

— Joining with RTPI Cymru, RICS Wales, CIH Cymru and Community Housing Cymru, RSAW co-hosted a discussion session on housing issues at the Welsh Labour party political conference, chaired by the late Carl Sargeant AM, then Cabinet Secretary for Communities and Children.

— The 2017 Wales Future Practice CPD programme opened with: A Legal Update with ARB in Pembroke Dock and a Planning Update in St Davids.

— West Wales Branch organised a social event for local practices to meet students at the new Swansea School of Architecture.



# Ionawr Chwefror Mawrth

— Cymerodd 19 o bractisiau a 65 o fyfyrwyr ran yn y cynllun 'profiad mewn practis' ar gyfer myfyrwyr ail flwyddyn yn Ysgol Bensaernïaeth Cymru, Caerdydd.

— Cyrhaeddodd pedwar adeilad restr fer Gwobrau Pensaernïaeth Cymru 2017:

- Un Sgwâr Canolog Caerdydd, Rio Architects
- Silver House, Hyde + Hyde Architects
- Ysgol Uwchradd y Rhyl, AHR Architects
- The Chickenshed, Hall & Bednarczyk Architects

— Cynrychiolwyd RSAW yn nhrafodaeth Ffederasiwn Diwydiannau Creadigol y DU yng Nghaerdydd.

— Ymunodd RSAW ag RTPI Cymru, RICS Cymru, CIH Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru i gynnal sesiwn drafod ar faterion tai yng nghynhadledd y Blaid Lafur Gymreig, gyda'r diweddar Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ar y pryd yn cadeirio.

— Agorodd rhaglen DPP Practisiau Dyfodol Cymru/ Wales Future Practice 2017 gyda: Diweddariad Cyfreithiol gydag ARB yn Noc Penfro a Diweddariad ar Gynllunio yn Nhyddewi.

— Trefnodd Cangen Gorllewin Cymru ddigwyddiad cymdeithasol i bractisiau lleol gael cyfarfod â myfyrwyr yn Ysgol Bensaernïaeth newydd Abertawe.

# April
# May

— Wales Festival of Architecture 2017
Featuring 5 exhibitions, 4 talks, 1 design charrette, 2 building tours and 8 films, the highlight was a talk by the two Welsh winners of the Legendary Glamping design competition, an international competition to design 8 glamping units which became a pop-up hotel on sites throughout Wales this summer. Rural Office for Architecture's Niall Maxwell and Carwyn Lloyd Jones of CAT appeared in the accompanying Channel 4 series Cabins in the Wild.

— Welsh Architecture Awards presentation ceremony
75 guests attended the Awards ceremony at one of 2016's winning buildings, Cardiff and Vale College, to see two buildings win Welsh Architecture Awards. RSAW Welsh Building of the Year and Client of the Year was awarded to Silver House by Hyde + Hyde Architects, while Hall + Bednarczyk were awarded RSAW Small Project of the Year for The Chickenshed.

— The RSAW Spring School at Portmeirion took the theme of the Six Nations rugby championship, with six architects representing Italy, France, Scotland, Ireland, England and Wales.

— The popular Conservation Coach visited three locations in North Wales under the expert guidance of Dr Mark Baker – Plas Teg, Gwrych Castle and Hafodunos.

— Design Circle (RSAW South Branch) ran a Design Workshop exploring a location in Rhiwbina, north Cardiff, drawing on the success of 2016's LIF-funded MUD charrette.

— North Wales Society of Architects (NWSA) organised a building study visit to Storyhouse, Chester's new cultural centre.








# Ebrill
# Mai

— Gŵyl Bensaernïaeth Cymru 2017
Cynhaliwyd 5 arddangosfa, pedair sgwrs, un charrette ddylunio, dwy daith o gwmpas adeiladau ac 8 ffilm. Yr uchafbwynt oedd sgwrs gan ddau enillydd Cymreig cystadleuaeth ddylunio Glampio Chwedlonol, sef cystadleuaeth ryngwladol i ddylunio 8 uned glampio a drôwyd yn westy dros dro ar safleoedd ledled Cymru dros yr haf. Ymddangosodd Niall Maxwell o'r Rural Office for Architecture a Carwyn Lloyd Jones o CAT yn y gyfres gysylltiedig ar Channel 4, Cabins in the Wild.

— Seremoni i gyflwyno Gwobrau Pensaernïaeth Cymru
Daeth 75 o wahoddedigion i'r seremoni wobrwyo yn un o adeiladau buddugol 2016, Coleg Caerdydd a'r Fro, i weld dau adeilad yn ennill Gwobrau Pensaernïaeth Cymru. Enillwyd gwobrau Adeilad y Flwyddyn a Chleient y Flwyddyn RSAW gan Silver House gan Hyde + Hyde Architects a gwobr Prosiect Bach y Flwyddyn RSAW gan The Chickenshed, Hall + Bednarczyk.

— Pencampwriaeth rygbi'r Chwe Gwlad oedd thema Ysgol Wanwyn RSAW ym Mhortmeirion, gyda chwe phensaer yn cynrychioli'r Eidal, Ffrainc, yr Alban, Iwerddon, Lloegr a Chymru.

— Bu'r Conservation Coach poblogaidd mewn tri lle yng ngogledd Cymru o dan arweinad arbenigol Dr Mark Baker – Plas Teg, Castell Gwrych a Hafodunos.

— Cynhaliodd Design Circle (Cangen De Cymru, RSAW) Weithdy Dylunio'n edrych ar leoliad yn Rhiwbeina, gogledd Caerdydd, gan elwa ar lwyddiant charrette MUD 2016 a ariannwyd gan LIF.

— Trefnodd Cymdeithas Penseiri Gogledd Cymru (NWSA) ymweliad astudio â Storyhouse, canolfan ddiwylliannol newydd Caer.





# June
# July
# August

— Touchstone 2017 was distributed to over 1000 recipients, including RSAW members and a wide range of client groups and cultural/ bookshop outlets.

— The RSAW President and Director joined the teams from RIBA, RSUA, RIAS and RIAI for the 5 Presidents Meeting, this time hosted by RIBA in London. Subjects included the Grenfell Tower fire and responses by the professional bodies, and the impact of Brexit in the constituent parts of the UK and Ireland.

— West Wales Branch and Mid-Wales Branch joint event: a talk and discussion on Wales: the state of the architectural nation, at Cardigan Castle, attracting architects and planners from 6 local authority areas.


— Announcement of the National Eisteddfod shortlist for the 2017 festival on Anglesey: CUBRIC, IBI Group; Rhyl High School, AHR Architects; Silver House, Hyde + Hyde Architects; Ysgol Bae Baglan, Stride Treglown Ltd.

— Design Circle organised the second Skyline competition, on the theme of landscape. Second-time winner Priit Jurimae received a gift donated by long-term RSAW sponsor Ibstock.

— Work continued on the second book in the Architecture of Wales series, a joint publishing venture with University of Wales Press.

— National Eisteddfod of Wales, Anglesey; the Gold Medal was presented to Stride Treglown Architects for Ysgol Bae Baglan; the Architecture Scholarship was won by Myfyr Jones-Evans.

— The National Eisteddfod hosted a Welsh-language discussion panel on the influence of Frank Lloyd Wright on Welsh architecture, attended by 60 guests.




# Mehefin
# Gorffennaf
# Awst

— Dosbarthwyd Touchstone 2017 i dros 1000 o bobl, yn cynnwys aelodau RSAW a nifer o grwpiau cleientiaid a chanolfannau diwylliannol/ siopau llyfrau.

— Ymunodd Llywydd a Chyfarwyddwr RSAW â thimau o RIBA, RSUA, RIAS a RIAI ar gyfer Cyfarfod y 5 Llywydd yn Llundain. Ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd tân Tŵr Grenfell ac ymateb y cyrff proffesiynol, ac effaith Brexit ar y gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig ac Iwerddon.

— Digwyddiad ar y cyd gan Ganghennau Gorllewin Cymru a Chanolbarth Cymru: sgwrs a thrafodaeth ar Cymru: cyflwr y genedl bensaernïol, yng Nghastell Aberteifi, a ddenodd benseiri a chynllunwyr o ardaloedd 6 awdurdod lleol.

— Cyhoeddi rhestr fer y Fedal Aur am Bensaernïaeth yn Eisteddfod Genedlaethol 2017 ar Ynys Môn: CUBRIC, IBI Group; Ysgol Uwchradd y Rhyl, AHR Architects; Silver House, Hyde + Hyde Architects; Ysgol Bae Baglan, Stride Treglown Ltd.

— Trefnodd Design Circle ail gystadleuaeth Skyline, ar thema tirwedd. Priit Jurimae oedd yr enillydd am yr eildro a chafodd anrheg a roddwyd gan noddwr hirdymor RSAW, Ibstock.

— Aeth y gwaith ymlaen ar ail lyfr y gyfres Architecture of Wales, menter gyhoeddi ar y cyd â Gwasg Prifysgol Cymru.

— Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Ynys Môn: cyflwynwyd y Fedal Aur am Bensaernïaeth i Stride Treglown am Ysgol Bae Baglan; enillwyd yr Ysgoloriaeth Bensaernïaeth gan Myfyr Jones-Evans.

— Daeth 60 o bobl i gyfarfod yn yr Eisteddfod Genedlaethol i drafod dylanwad Frank Lloyd Wright ar bensaernïaeth Cymru.

# September October November December

— September saw the election of RSAW's new President for the 2017 – 2019 session, Carolyn Merrifield. The RSAW Honorary Secretary is Geraint Roberts and the Honorary Treasurer is Andy Sutton.

— RSAW staff and/or members attended the IWA conference Wales Said Yes, marking 20 years since the Welsh Devolution referendum; CITB Wales Board dinner; ARB consultation on criteria; and the ground-breaking ceremony for the Centre for Wales Innovation and Construction (CWIC launch) at UWTSD Swansea.

— CPD sessions included a Working with Clients session with Constructing Excellence in Wales; a Victorian/Edwardian-themed Conservation Coach (South); updates on the requirement to submit Heritage Impact Assessments; a session on residential acoustics; a Design Commission for Wales design charrette on Merthyr Tydfil's industrial heritage.

— RSAW staff and NWSA members took part in a fringe event at the Plaid Cymru party political conference in Caernarfon, co-hosted with other built environment professional bodies.

— The 24th RSAW Annual Conference *Brave New World – the next ten years for architectural practice in Wales* – featured Dr Rory Hyde, Curator of Contemporary Architecture and Urbanism, V&A Museum and Mary Duggan, of Mary Duggan Architects.

— The exhibition, *A Celebration of Welsh Architecture in words and photographs*, highlighting projects shortlisted for awards in 2017 was on display in the Oriel of the Senedd in November and December. Jane Hutt AM sponsored the exhibition and launch reception for 40+ members, AMs and guests.

— Mid-Wales Branch hosted talks to mark the 150th anniversary of the birth of Frank Lloyd Wright, given by Jonathan Adams who wrote and presented the BBC Wales TV programme *Frank Lloyd Wright: the man who built America.*

— A joint event at Cardigan Castle, linking Mid and West-Wales Branches, brought together architects and planners to explore good practice in the historic environment. The session was co-hosted by RTPI Cymru and IHBC Wales as part of the All-Wales Ideas Forum, funded through the RIBA's Local Initiative Fund.

— RSAW welcomed a new Honorary Member – Menna Richards, former Controller of BBC Wales, in a ceremony at Insole Court, Cardiff.

As well as the activities listed above, RSAW staff, President and members of Council regularly attend meetings at the RIBA, including RIBA Council, Nations and Regions committee and Regional Management group, to report on activity and share experience; we also organise video-linked Council meetings to connect the four Branches four times a year and we undertake visits to practices and Branch meetings whenever possible.






# Medi Hydref Tachwedd Rhagfyr

— Ym mis Medi, etholwyd Llywydd newydd RSAW am y cyfnod 2017 i 2019, Carolyn Merrifield. Geraint Roberts yw Ysgrifennydd Mygedol RSAW ac Andy Sutton yw'r Trysorydd Mygedol.

— Bu staff a/neu aelodau RSAW yng nghynhadledd y Sefydliad Materion Cymreig (IWA), Wales Said Yes, yn nodi 20 mlynedd ers y refferendwm datganoli; cinio Bwrdd CITB Cymru; ymgynghoriad ARB ar feini prawf; a seremoni torri tywarchen gyntaf Canolfan Arloesi Adeiladwaith Cymru (CWIC) yn CPDDS Abertawe.

— Roedd y sesiynau DPP yn cynnwys sesiwn Cydweithio â Chleientiaid gydag Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru; Conservation Coach ar thema Fictoraidd/Edwardaidd (De); y newyddion diweddaraf am y gofyn i gyflwyno Asesiadau Effaith ar Dreftadaeth; sesiwn ar acwsteg tai; charrette ddylunio gan Gomisiwn Dylunio Cymru ar dreftadaeth ddiwydiannol Merthyr Tudful.

— Cymerodd staff RSAW ac aelodau NWSA ran mewn digwyddiad ymylol yng nghynhadledd Plaid Cymru yng Nghaernarfon, ar y cyd â chyrff proffesiynol eraill ym maes yr amgylchedd adeiledig.

— Bu'r Dr Rory Hyde, Curadur Pensaernïaeth Gyfoes a Bywyd Dinesig, Amgueddfa V&A, a Mary Duggan o Mary Duggan Architects yn cymryd rhan yn 24ain Cynhadledd Flynyddol RSAW *Brave New World – y deng mlynedd nesaf ar gyfer pensaernïaeth yng Nghymru.*

— Bu cyfle i weld yr arddangosfa, *Dathliad o Bensaernïaeth Cymru mewn geiriau a ffotograffau*, oedd yn cynnwys prosiectau a gyrhaeddodd restrau byrion gwobrau yn 2017, yn Oriel y Senedd ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr. Noddwyd yr arddangosfa a'r derbyniad lansio ar gyfer dros 40 o aelodau, ACau a gwahoddedigion gan Jane Hutt AC.

— Cynhalioddiodd Cangen y Canolbarth sgyrsiau i nodi can mlwyddiant a hanner geni Frank Lloyd Wright gan Jonathan Adams a oedd yn gyfrifol am ysgrifennu a chyflwyno'r rhaglen deledu ar BBC Cymru, *Frank Lloyd Wright: the man who built America.*

— Mewn digwyddiad ar y cyd rhwng Canghennau Canolbarth a Gorllewin Cymru yng Nghastell Aberteifi, bu penseiri a chynllunwyr yn trafod arferion da mewn amgylchedd hanesyddol. Trefnwyd y sesiwn ar y cyd gan RTPI Cymru ac IHBC Cymru fel rhan o Fforwm Syniadau Cymru Gyfan, wedi'i ariannu trwy Gronfa Mentrau Lleol RIBA.

— Croesawodd RSAW Aelod er Anrhydedd newydd – Menna Richards, cyn-Gyfarwyddwr BBC Cymru, mewn seremoni yn Nghwrt Insole, Caerdydd.


Yn ogystal â'r gweithgareddau a restrir uchod, mae staff, Llywydd ac aelodau Cyngor RSAW yn mynd i gyfarfodydd gyda RIBA yn rheolaidd, yn cynnwys Cyngor RIBA, y Pwyllgor Cenhedloedd a Rhanbarthau a'r Grŵp Rheoli Rhanbarthol, i adrodd am eu gweithgareddau ac i rannu profiadau; yn ogystal, rydym yn trefnu cyfarfodydd o'r Cyngor trwy gyswllt fideo i gysylltu'r pedair Cangen bedair gwaith y flwyddyn ac rydym yn ymweld â phractisiau a chyfarfodydd o'r Canghennau pan allwn.






# Highlights of the year
# Uchafbwyntiau'r flwyddyn











# Facts + figures
# Ffeithiau + ffigurau

## 84%

84% of registered architects in Wales are RSAW (RIBA) members
Mae 84% o benseiri cofrestredig Cymru yn aelodau o RSAW (RIBA)

## 15 + 1

RSAW welcomed 15 new RIBA Chartered Members and one new Honorary Member in 2017
Croesawodd RSAW 15 o Aelodau Siartredig newydd RIBA ac un Aelod er Anrhydedd yn 2017

## 2

RSAW co-hosted events at two party political conferences in 2017 (Plaid Cymru and Welsh Labour)
RSAW wedi cyd-noddi digwyddiadau yng nghynadleddau dwy o'r pleidiau gwleidyddol yn 2017 (Plaid Cymru a Llafur Cymru)

## 100

Practices supported RSAW events in 2017
Cant o bractisiau wedi cefnogi digwyddiadau RSAW yn 2017

## 400

Total number of delegate places taken up at RSAW events in 2017
Cyfanswm y lleoedd a gymerwyd yn nigwyddiadau RSAW yn 2017

## 23

We organised events at 23 different venues in 16 Welsh towns in 2017
Trefnwyd digwyddiadau gennym mewn 23 o leoedd gwahanol mewn 16 o drefi Cymru yn 2017

## The Year Ahead

In recent years, RSAW and RIBA have agreed to realign RSAW's relation with RIBA to more appropriately reflect the political and business reality brought about by devolution for its members in Wales. A dedicated budget 'to facilitate engagement in the political and civic life of Wales' has helped RSAW to develop and deliver initiatives and partnerships appropriate to its status in the life of a nation with a strong political and cultural identity. In 2018 we will nurture and consolidate these initiatives as we continue to raise the profile and influence of architects in Wales.

RSAW's programme of work for 2018 will focus on the RIBA's objective to serve members and society in order to deliver better buildings and places, stronger communities and a sustainable environment. We will apply inclusive, environmental and ethical values in the Welsh context by embedding the overarching values of the Wellbeing of Future Generations (Wales) Act in all our initiatives.

We recognise we particularly need to serve the needs of members who conduct business through the Welsh language and to be able to comply with the spirit of the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

In our dealings with Welsh Government, we aim to become more proactive, identifying opportunities for the architectural profession in Wales to shape inclusive and progressive policies for the future.

## Activity highlights 2018

### Spring

- North Wales Society of Architects will join forces with the innovation team at Pontio, Bangor University, for a series of public talks on the theme of 'new ways of thinking'.
- The RSAW Spring School takes place on Friday 11 May at Portmeirion. Italian architect Alfonso Femia http://www.atelierfemia.com/en/profile/ will be the Inspiration Hour speaker, talking about his work throughout Europe.
- We will implement the findings of the feasibility study for a national archive of Welsh architectural drawings.
- The 2018 Wales Festival of Architecture (April and May) will host events in all four Branch areas, including a 'Be an Architect for the Day' event at Aberystwyth Arts Centre and the winners day for the Shape My Street design competition for primary schools in Wales, with WSA and DCFW.
- We anticipate a joint initiative with Design Commission for Wales and RTPI Cymru to engage with Welsh Government's National Development Framework.

### Summer

- With the National Eisteddfod coming to Cardiff Bay this August, Design Circle will be involved in additional interactive activities to enhance the established exhibition of shortlisted buildings.

### Autumn

- The second book in the RSAW/University of Wales Press series The Architecture of Wales will be launched in September. *The Architecture of Wales: from the first to the twenty-first century* by John B Hilling, with additional chapters by Professor Simon Unwin and Jonathan Vining.

### Winter

- The RSAW Annual Conference reaches its 'silver' anniversary, celebrating 25 years since its first appearance at the Metropole Hotel in Llandrindod Wells in 1994

## Y Flwyddyn o'n Blaen

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cytunodd RSAW a RIBA i addasu eu perthynas er mwyn i'r sefyllfa wleidyddol a'r sefyllfa fusnes a grëwyd ar gyfer yr aelodau yng Nghymru gan ddatganoli gael eu hadlewyrchu'n well. Mae cyllideb neilltuol 'i hwyluso ymwneud â bywyd gwleidyddol a dinesig Cymru' wedi helpu RSAW i ddatblygu a chynnal mentrau a phartneriaethau sy'n addas ar gyfer ei statws ym mywyd cenedl sydd â hunaniaeth wleidyddol a diwylliannol gref. Yn 2018, byddwn yn meithrin ac yn cadarnhau'r mentrau hyn wrth barhau i godi proffil a dylanwad penseiri yng Nghymru.

Bydd rhaglen waith RSAW yn 2018 yn canolbwyntio ar amcan RIBA, sef gwasanaethu'r aelodau a chymdeithas er mwyn sicrhau gwell adeiladau a lleoedd, cymunedau cryfach ac amgylchedd cynaliadwy. Byddwn yn rhoi gwerthoedd cynhwysol, amgylcheddol a moesegol ar waith yn y cyd-destun Cymreig trwy ymgorffori gwerthoedd trosfwaol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ein holl weithgareddau.

Rydym yn cydnabod bod angen i ni ddiwallu anghenion aelodau sy'n cynnal eu busnes trwy gyfrwng y Gymraeg a bod angen i ni allu cydymffurfio ag ysbryd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Wrth ymwneud â Llywodraeth Cymru, ein nod yw bod yn fwy rhagweithiol, gan bennu cyfleoedd i'r proffesiwn pensaernïol yng Nghymru lywio polisïau cynhwysol a blaengar ar gyfer y dyfodol.

## Uchafbwyntiau gweithgareddau 2018

### Y Gwanwyn

- Bydd Cymdeithas Penseiri Gogledd Cymru'n cydweithio â'r Tîm Arloesi yn Pontio, Prifysgol Bangor, ar gyfres o sgyrsiau cyhoeddus ar y thema 'ffyrdd newydd o feddwl'.
- Cynhelir Ysgol Wanwyn RSAW ddydd Gwener 11 Mai ym Mhortmeirion. Yn yr Awr Ysbrydoliaeth, bydd pensaer o'r Eidal, Alfonso Femia http://www.atelierfemia.com/en/profile/ yn siarad am ei waith ledled Ewrop.
- Byddwn yn gweithredu canfyddiadau'r astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer archif genedlaethol o ddyluniadau pensaernïol o Gymru.
- Yn ystod Gŵyl Bensaernïaeth Cymru 2018 (Ebrill a Mai), cynhelir digwyddiadau yn ardaloedd pob un o'r pedair cangen yn cynnwys 'Byddwch yn Bensaer am Ddiwrnod' yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth a diwrnod Shape My Street ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru, gydag Ysgol Bensaernïaeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru.
- Rydym yn disgwyl y cynhelir menter ar y cyd â Chomisiwn Dylunio Cymru ac RTPI Cymru mewn perthynas â Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

### Yr Haf

- Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Fae Caerdydd ym mis Awst, bydd Design Circle yn cyfrannu at weithgareddau rhyngweithiol i ychwanegu at yr arddangosfa arferol o adeiladau sydd ar y rhestr fer.

### Yr Hydref

- Caiff yr ail lyfr yng nghyfres RSAW/Gwasg Prifysgol Cymru The Architecture of Wales ei lansio ym mis Medi. *The Architecture of Wales: from the first to the twenty-first century* gan John B Hilling, gyda phenodau ychwanegol gan yr Athro Simon Unwin a Jonathan Vining.

### Y Gaeaf

- Bydd Cynhadledd Flynyddol RSAW yn dathlu ei phen-blwydd yn 25. Cynhaliwyd y gynhadledd gyntaf yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod yn 1994

# REVIEW OF THE YEAR

# 2017

# GOLWG AR Y FLWYDDYN


Tîm RSAW team

**Amanda Brake**, Professional Development and Events Coordinator; Cydlynydd Hyfforddiant Proffesiynol (p/t)

**David Rossington**, Professional Development and Events Coordinator; Cydlynydd Hyfforddiant Proffesiynol (p/t)

**Thomas Webb**, Projects and Policy Coordinator; Cydlynydd Prosiectau a Pholisi

**Mary Wrenn**, Director; Cyfarwyddwr



The RSAW is the Royal Institute of British Architects in Wales
RSAW yw Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain yng Nghymru

Studio 111,
The Creative Quarter,
Cardiff/Caerdydd
CF10 1AF

www.architecture.com/wales
029 2022 8987

RSAW
Architecture.com/wales


Images

**01** Robert Firth
*Photo/Ffoto: Betina Skovbro*
Carolyn Merrifield

---

**02** Silver House, Hyde + Hyde Architects
*Photo/Ffoto: David Schnabel*

The Chickenshed, Hall + Bednarczyk Architects
*Photo/Ffoto: Michael Sinclair*

Conservation Coach study tour, Gwrych Castle
Taith astudio'r Conservation Coach, Castell Gwrych

Design Circle charrette, Rhiwbina
Charrette y Design Circle, Rhiwbeina
*Photo/Ffoto: Andy Sutton*

Brochure: Wales Festival of Architecture
Taflen: Gŵyl Bensaernïaeth Cymru
*Design/Dylunio: Peter Marks*

Book cover/Clawr llyfr: *The Architecture of Wales*
*Design/Dylunio: Marc Jennings*

Ysgol Bae Baglan, Stride Treglown Ltd
*Photo/Ffoto: James Morris*

Welsh Architecture Awards ceremony
Seremoni i gyflwyno Gwobrau Pensaernïaeth Cymru
*Photo/Ffoto: Nick Treharne Photography*

Guggenheim New York/Guggenheim Efrog Newydd
*Photo/Ffoto: Jonathan Adams/Huw Walters*

Invitation to Senedd launch
Gwahoddiad i lansiad yn y Senedd
*Design/Dylunio: David Rossington*

RSAW Conference 2017: *Brave new world …*
Cynhadledd RSAW 2017: *Brave new world …*
*Design/Dylunio: Peter Marks*

Cornerstone conference venue
Cornerstone, lleoliad y gynhadledd
*Photo/Ffoto: Chas Breton*

---

**03** Maison L, Christian Potgeisser architecturepossibles

2017 Spring School presentation
Cyflwyniad yn Ysgol Wanwyn 2017
*Photo:/Ffoto: George Dupin*

Brochure: Spring School 2017: The RSAW Six Nations
Taflen: Ysgol Wanwyn 2017: Cyfarfyddiad Chwe Gwlad RSAW
*Design/Dylunio: Marc Jennings*

Cover/Clawr: Touchstone 2017
*Design/Dylunio: Ray Nicklin*
*Tate Photography/Joe Humphreys*

Brochure: Wales Festival of Architecture
Llyfryn: Gŵyl Bensaernïaeth Cymru
*Design/Dylunio: Peter Marks*

---


Translation/Cyfieithu:
sian.roberts@btinternet.com

Design/Dylunio:
www.theundercard.co.uk